# Arolwg y Gwcw Sir Gaerfyrddin 2025

Partneriaeth Natur SIR GÂR • CARMARTHENSHIRE Nature Partnership

Clwb Adar Sir Gaerfyrddin
Carmarthenshire Bird Club

WWBIC
WEST WALES BIODIVERSITY INFORMATION CENTRE
CANOLFAN WYBODAETH BIOAMRYWIAETH GORLLEWIN CYMRU

---

**Hoffai Partneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin gael eich help i ddarganfod ble rydych chi wedi clywed y Gwcw yn y sir yn 2025**

## Arwyddocâd Dychweliad y Gwcw

Wrth i'r gwanwyn gyrraedd Sir Gaerfyrddin cawn ein cyfarch gan gân eiconig y Gwcw, sy'n cyhoeddi ei dychweliad o'i thiroedd gaeafu yn Affrica. O gymryd rhan yn yr arolwg hwn byddwch yn ein helpu i olrhain yr adar mudol hyn a deall mwy am eu sefyllfa heddiw.

## Pwy ydyn ni?

Mae Partneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin, grŵp ar y cyd rhwng llywodraeth leol, sefydliadau bywyd gwyllt, elusennau a grwpiau gwirfoddol, yn ymroddedig i warchod a gwella bioamrywiaeth ein sir. Gyda'n gilydd, rydym am ddeall a gwarchod rhywogaethau fel y Gwcw.

## Pam mae'r Arolwg hwn yn bwysig?


Mae adroddiadau diweddar gan Arolwg Adar Prydain (2019) yn dangos dirywiad difrifol yn niferoedd y Gwcw:

- Lloegr: Dirywiad o 71%
- Yr Alban: Dirywiad o 54%
- Cymru: Dirywiad o 29%

Mae'r Gwcw bellach wedi'i rhestru fel rhywogaeth â blaenoriaeth yng Nghymru ac wedi'i dynodi'n rhywogaeth 'Goch' o Bryder Cadwraeth, sy'n nodi'r lefel uchaf o fygythiad. Er bod Cwcws yn dal i gael eu gweld yn Sir Gaerfyrddin, maent yn prinhau, ac mae angen eich help arnom i fonitro eu niferoedd a'u cynefin bridio.

## Ffeithiau am y Gwcw

- **Cyrraedd:** Mae'r Gwcw yn dychwelyd o Affrica o gwmpas trydedd wythnos Ebrill.
- **Gadael:** Mae fel arfer yn gadael erbyn diwedd mis Gorffennaf.
- **Cân:** Mae'r ceiliog yn canu cân "Cwc-ww" hawdd ei hadnabod, tra bod yr iâr yn canu cân fyrlymus.







Nid yw absenoldeb cofnod rhywogaeth o reidrwydd yn golygu nad yw'r rhywogaeth honno'n bresennol - dim ond nad oes unrhyw gofnodion ar glawr a chadw.

Mae angen eich help arnom i lenwi'r bylchau.

- **Nythu:** Nid yw Cwcws yn adeiladu eu nythod eu hunain ond yn hytrach yn dodwy eu hwyau yn nythod adar eraill, yn enwedig Corhedyddion y Waun.
- **Ymddangosiad:** O faint colomen gyda chorff main ac adenydd pigfain, yn debyg i Gudyll Coch neu Gudyll Glas.

### Pam mae'r Gwcw yn prinhau?

Gall sawl ffactor gyfrannu at brinhad y Gwcw, gan gynnwys:

- Mudo a thiroedd gaeafu Affrica: mae astudiaethau olrhain yn dangos y gall patrymau mudo effeithio ar eu gallu i oroesi.
- Colli cynefin: mae newidiadau mewn defnydd tir yn golygu bod llai o wlyptiroedd a chynefinoedd allweddol eraill ar gael.
- Prinder ysglyfaeth: mae dirywiad mewn lindys gwyfynod a Chorhedyddion y Waun, prif rywogaethau cynnal y Gwcw, yn effeithio ar eu niferoedd.

### Sut gallwch chi helpu

Mae angen eich help arnom i gofnodi achosion o weld a chlywed y Gwcw. Drwy rannu eich arsylwadau, byddwch yn ein helpu i greu darlun cliriach o'r mannau y maent yn dychwelyd iddynt ac yn nythu yn Sir Gaerfyrddin.

### Sut i gymryd rhan:

**Cofnodi:** Y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw nodi pryd a ble rydych chi'n gweld neu'n clywed Cwcw.

**Cyflwyno:** Cofnodwch eich arsylwadau drwy fynd i:

- Canolfan Cofnodi Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru: Cofnodi bywyd gwyllt a chofnodi bioamrywiaeth yng Ngorllewin Cymru
- iRecord (chwiliwch am Arolwg y Gwcw Sir Gaerfyrddin 2025 yn Gweithgareddau Gweithgareddau| iRecord)
- E-bost: biodiversity@sirgar.gov.uk

### Beth fydd yn digwydd nesaf?

Bydd yr holl gofnodion yn cael eu cyfuno ar fap a'u rhannu gyda Chlwb Adar Sir Gaerfyrddin a Chanolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru.

### Hysbysiad GDPR (Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data)

Bydd eich cofnodion yn cael eu cadw'n gyfrinachol a'u defnyddio at ddibenion yr arolwg hwn yn unig. Bydd unrhyw ddata personol a gaiff ei gasglu yn cael ei drin yn unol â rheoliadau preifatrwydd:

- Canolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru
- iRecord

### Diolch i chi am eich help!

Trwy gymryd rhan, rydych chi'n cyfrannu at ddiogelu'r Gwcw a'n helpu ni i ddeall beth allwn ni ei wneud i'w helpu. Beth am weithio gyda'n gilydd i sicrhau bod cân y Gwcw yn parhau i gael ei chlywed ar draws Sir Gaerfyrddin am flynyddoedd i ddod!